

## **Cerdded yn ein hesgidiau: deall anghenion teuluoedd pobl sy'n aelodau o Luoedd Arfog y DU**

Adolygiad a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r pryderon a godwyd gan deuluoedd pobl sy'n aelodau o'r lluoedd arfog ac argymhellion ar gyfer newid.

### **Manylion**

Mae gwasanaethu fel aelod o Luoedd Arfog y DU yn gofyn am ddisgyblaeth, proffesiynoldeb, dewrder, aberth personol ac ymrwymiad i wasanaethu'r genedl. Mae sefydlogrwydd teuluol yn hanfodol i allu personél sy'n gwasanaethu i wneud eu dyletswydd yn effeithiol, ac eto nid yw'r cyfraniad ac aberthu eu priod/partneriaid a'u plant bob amser yn cael ei deall na'i werthfawrogi.

Mae'r adolygiad hwn yn dangos effeithiau adleoliadau mynych ar addysg plant a chyflogaeth partneriaid, cyfnodau hir o fod i ffwrdd o'u teuluoedd tra bod personél sy'n gwasanaethu i ffwrdd ar ddyletswydd, tarfiadau ar ofal iechyd a'r heriau niferus y mae teuluoedd pobl sy'n aelodau o Luoedd Arfog y DU yn ymdopi â hwy bob dydd. Gall y rhain gynnwys unigedd cymdeithasol, unigrwydd a phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r adolygiad, a gynhaliwyd yn 2019, yn herio rhai traddodiadau milwrol hirsefydlog ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newid a fyddai'n gwella'r gefnogaeth i deuluoedd pobl sy'n aelodau o Luoedd Arfog y DU ac yn sicrhau mwy o gydnabyddiaeth am yr aberth a wnânt i gadw'r genedl yn ddiogel. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl i drin personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd gyda thegwch a pharch, ac i sicrhau nad ydynt yn wynebu unrhyw anfantais o'u cymharu â dinasyddion eraill. Dylid cryfhau'r Cyfamod a'r Strategaeth Teuluoedd i hyrwyddo gwasanaeth gwydn, grymus a ffyniannus i deuluoedd sy'n cael eu trin yn deg ac sydd wedi cynyddu dewis yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt, ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y genedl.

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o gefnogaeth i deuluoedd milwrol ac mae'n disgrifio sut beth yw cerdded yn eu hesgidiau. Mae'n darparu tystiolaeth fanwl ar gyfer argymhellion yr adolygiad.

Mae'r Adroddiad Cryno yn amlygu'r prif themâu ac yn rhestru'r argymhellion ar gyfer newid.

### **Gwybodaeth berthnasol**

[Cyfamod y Lluoedd Arfog: canllaw a chymorth](#)